# Adroddiad Blynyddol gan Gynghorydd 2017/18

Hwn yw'r adroddiad gan y Cynghorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

**Cynghorydd: Dafydd Roberts**
**Grŵp: Y Grŵp Annibynnol** **Ward: Bro Rhosyr**

### 1 - Rôl a Chyfrifoldebau

Dwi'n aelod o'r pwyllgorau isod, ac yn aelod cydwybodol o'r Panel Scriwtini Cyllid.

Dwi'n gwneud pob ymgais i fynychu'r sesiynau hyfforddiant a briffio a ddarperir i Gynghorwyr.

| **Rhwng Mai 2017 a Mawrth 2018, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:** | **Nifer y cyfarfodydd a drefnwyd** | **Nifer a fynychwyd** |
|---|---|---|
| Cyngor | 9 | 9 |
| Pwyllgor Apeliadau | 0 | 0 |
| Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | 4 | 3 |
| Pwyllgor Trwyddedu | 1 | 1 |
| Pwyllgor Sgriwtini Partneriaethau ac Adfywio | 6 | 6 |
| Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion | 11 | 10 |
| Mae'r ystadegau a ddarperir yn berthnasol yn unig i'r pwyllgorau a restrir yn y tabl hwn. Nid yw'r ystadegau'n cynnwys presenoldeb mewn cyfarfodydd eraill sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir. Gall trefniadau cyflogaeth Aelod hefyd effeithio ar lefelau presenoldeb. *Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel deilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft.* | | |

Rwyf yn aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ac wedi mynychu 4 allan o 6 cyfarfod a drefnwyd. Rwyf hefyd yn Aelod o bwyllgor Buddsoddiadau a Chontractau ac wedi mynychu'r 1 cyfarfod a drefnwyd.

| **Rwy'n cynrychioli'r Cyngor ar y cyrff allanol canlynol:** | **Nifer y cyfarfodydd a drefnwyd** | **Nifer a fynychwyd** |
|---|---|---|
| Cyd-bwyllgor Ymgynghorol yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol | 2 | 1 |
| Pwyllgor Rheoli CYNNAL | 3 | 3 |
| Llywodraethwr – Ysgol Gynradd Henblas, Llangristiolus | 4 | 4 |
| Llywodraethwr – Ysgol Gynradd Parc y Bont, Llanddaniel | 4 | 4 |

## 2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth

Yn ystod y flwyddyn, mynychais Gynghorau Cymuned Llanddaniel, Llangristiolus, Llanidan a Llanfihangel Esceifiog yn rheolaidd.

Dwi'n aelod o Gorff Llywodraethu Ysgol Henblas, ac yn Gadeirydd Corff Llywodraethu Ysgol Parc y Bont. Dwi'n gyfarwyddwr ar gwmni cymunedol Trigolion Llanddaniel Fab.

## 3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Roeddwn yn rhan o'r ymgyrch i gadw Ysgol Henblas ar agor.

Bûm yn flaenllaw mewn cais llwyddiannus i amddiffyn penderfyniad y Pwyllgor Cynllunio mewn Apêl cynllunio cynhennus lleol.

## 4 - Dysgu a Datblygu

Rwyf wedi mynychu'r mentrau dysgu a datblygu canlynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (gwybodaeth wedi'i ddarparu gan Gyngor Sir Ynys Môn):

| | |
|---|---|
| Cyflwyniad i Wasanaethau'r Awdurdod | 11/05/2017 |
| Cyflwyniad i Wasanaethau'r Awdurdod | 18/05/2017 |
| Sesiwn Briffio – Cynllun Corfforaethol a'r Côd | 18/05/2017 |
| Hyfforddiant IPad | 18/05/2017 |
| Cyllid gan gynnwys Cyllidebu a Thrysorlys | 25/05/2017 |
| Diogelu Sylfaenol | 01/06/2017 |
| Hyfforddiant Cynllunio | 01/06/2017 |
| Y Cyfansoddiad | 05/06/2017 |
| Cwestiynu effeithiol yn Sgriwtini | 04/12/2017 |
| Hyfforddiant Trwyddedu | 13/03/2018 |
| Hyfforddiant ACE | 23/03/2018 |
| Sesiynau Briffio Aelodau (9 allan o 12 ) | Mai 2017 – Mawrth 2018 |
| *Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel deilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft.* | |

## 5 – Gweithgareddau a Materion Eraill

Dwi'n parhau i fod ar gael i ddelio gydag unrhyw broblemau sydd gan yr etholwyr, ac wedi delio gydag amryw o ymholiadau unigol yng nghorff y flwyddyn

Ceir rhagor o wybodaeth amdanaf yma:

http://democracy.anglesey.gov.uk/mgUserInfo.aspx?UID=552&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Y Cynghorydd Dafydd Roberts** | **Ebrill 2018** |